# YR HEUWR

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB, PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 34
MEHEFIN 2011

Ar ddydd Llun olaf mis Mai bu cyffro aruthrol yn ninas Abertawe wrth i dîm pêl-droed yr Elyrch gael eu dyrchafu i'r Uwch Gyngrhair mewn gêm hynod gyffrous yn Stadiwm Wembley. Teithiodd miloedd o gefnogwyr Tîm Abertawe i gyrion Llundain i weld eu harwyr yn curo Reading o bedair gôl i ddwy gan sicrhau buddugoliaeth a fydd yn aros yn y cof am flynyddoedd lawer. Rwy'n dal i gofio'r cyffro yng Nghwmtawe pan lwyddodd Abertawe fynd i'r Adran Gyntaf rhyw ddeng mlynedd ar hugain yn ôl. Yn sicr, fe fydd dyrchafiad yr Elyrch eleni yn cynnig cyfle arbennig i'r ardal gyfan i elwa o'r sylw a ddaw i Abertawe yn sgil llwyddiant y tîm.

Ond ychydig o ddyddiau wedi'r dathliadau bu yna ddyrchafiad o fath gwahanol. Y tro hwn nid oedd angen teithio mor bell â Stadiwm Wembley a hynny am ein bod yn cofio ac yn dathlu dyrchafiad ein Harglwydd Iesu i eistedd ar ddeheulaw ei Dad nefol. Ie, ar y dydd Iau cyntaf ym mis Mehefin roedd hi'n Ddydd Iau Dyrchafael, sef y diwrnod a nodai diwedd ymddangosiadau y Crist atgyfodedig ar y ddaear a'i gymryd i'r nef mewn cwmwl.

Ystyr dyrchafu'r Crist yw nid ei godi i fyny yn llythrennol ond ei ogoneddu, a'r hyn a ddeallwn yn y digwyddiad hwn yw fod Crist wedi dychwelyd i bresenoldeb ei Dad nefol. Bu adeg yn hanes y ddynolryw pan oedd pobl yn credu bod y byd yn wastad a'r nefoedd ymhell uwch ein pennau. Bellach gwyddom nad rhyw le uwch y ddaear ydyw, ond fe wyddom mai'r Iesu yw'r ffordd i gyrraedd ato. Ym mhresenoldeb y Crist fe gawn flas o'r nefoedd. Ac y mae dyrchafiad Crist i'r nef a dyfodiad maes o law yr Ysbryd Glân, ar Ŵyl y Pentecost, yn cynnig cyfle i'r byd yn gyfan i elwa o'i bresenoldeb dwyfol a chael blas o'r nefoedd yma ar y ddaear hon.

Rwy'n siŵr y byddai sawl un o gefnogwyr yr Elyrch am dystio iddynt brofi ychydig o flas y nefoedd yn stadiwm Wembly wrth iddynt ennill y dydd yn erbyn Reading. Cawn ninnau flas gwirioneddol o'r nefoedd wrth dystio i bresenoldeb y Crist byw yn ein bywydau. Fe fydd Abertawe yn sicr yn elwa o'i dyrchafiad a dymunwn hir oes iddynt yn yr Uwch Gynghrair ond bydded i'n cymunedau a'n gwlad hefyd elwa o ddyrchafiad yr Un a'n carodd ac a roddodd inni sicrwydd tragwyddol.

*'Esgynnodd Crist i entrych nef,*
*pob glin a blyg i'w enw ef,*
*Dyrchafwn orfoleddus lef:*
*Halelwia.'*

Glanmor

Pob bendith
Judith

Berwynfa, Penrhyn-coch, Aberystwyth. SY23 3EW
Rhif Ffôn : 01970 820939 E-bost: berwynfa@btinternet.com

**CALENDR MIS MEHEFIN 2011**

| | | |
|---|---|---|
| Cyhoeddwr y Mis: William Howells | Organydd y Mis : Ceris Gruffudd | |
| 5 Mehefin 2.30 | Oedfa Gymun : Gweinidog | Bwrdd y Cymun: Dafydd ac Ellen Sheppard |
| 12 Mehefin 10.30<br>2.00 | Clwb Sul Bach<br>Oedfa yn Soar y Mynydd : Gweinidog<br>Bydd y bws yn gadael Penrhyn-coch am 12.30. Enwau i Ceris. | |
| 19 Mehefin 2.30 | Oedfa Bregethu<br>Y Parchg Peter M Thomas | Gofal y Te<br>Dafydd ac Ellen Sheppard |
| 26 Mehefin 10.30 | Clwb Sul Bach ac Oedfa Bregethu : Gweinidog | |
| 3 Gorffennaf 2.30 | Oedfa Gymun : Gweinidog | Bwrdd y Cymun:<br>Mervyn & Sue Hughes |

**I'CH DYDDIADUR**

6 Mehefin: Cinio Bara Caws yn Eglwys Dewi Sant: 12.00-1.30yp
7 Mehefin: Cwrdd diaconiaid 7.00
8 Mehefin: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys: Horeb yn gyfrifol am weini.
8 Mehefin: Cyflwyniad Awr Ginio yn y Llyfrgell Genedlaethol: 'The Dragon and the Crescent: nine centuries of Welsh encounters with Islam' gan Dr Grahame Davies. 1.15. Mynediad am ddim drwy docyn.
8 Mehefin: Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas y Penrhyn 7.30yh
11 Mehefin: Cyngerdd yr *Inner Wheel* ym Methel am 7yh yng nghwmni Côr Meibion Aberystwyth, Y Tri Tenor, Elen Thomas, Sophie Rudge. Tocynnau £10. Elw at Glinig Cancr y Fron, Ysbyty Bronglais.
15 Mehefin: Cymdeithas Bethel: Te Mefus ym Mryngryffty. 2.30-4.00yp. Croeso cynnes i bawb.
22 Mehefin: Cinio Cymunedol Penrhyn-coch yn Neuadd yr Eglwys
28 Mehefin: Cwrdd Gweddi Misol yn Festri Horeb am 7.30yh
4-6 Gorffennaf: Cyfarfododd Undeb Bedyddwyr Cymru ym Mhenuel, Casllwchwr.
9 Gorffennaf: Taith Cymdeithas y Penrhyn i Sir y Fflint
5 Hydref: Cyfarfod Diolchgarwch Horeb yng nghwmni'r Parchedig Nan Wyn Powell-Davies

**LLOFFION**

Croeso adre' i Mrs Connie Evans, ar ôl treulio cyfnod yn Nhregerddan, wedi iddi dderbyn triniaeth yn yr ysbyty.
Dymuniadau gwresocaf i Mrs Mairwen Jones sydd yn disgwyl triniaeth.
Dymuniadau gorau i Mrs Doreen Sedgwick sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty.
Dymuniadau gorau i Derfel a fydd yn chwarae pêl-droed yng Ngenefa.
Llongyfarchiadau i Anwen Morris ar ennill y wobr gyntaf am waith graffeg cyfrifiadurol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.
Llongyfarchiadau i Mared am ddod yn drydydd yng nghystadleuaeth y ddeuawd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

**Y Gymanfa Ganu**

Hoffwn ddiolch i Mr Mervyn Hughes am wasanaethu dros sawl blwyddyn fel Trysorydd Cymanfa Gogledd Ceredigion. Mae Mervyn bellach wedi rhoi'r gorau i'r gwaith ond yr ydym yn falch bod Mr Robert Dobson wedi cydsynio i ymgymryd â'r gwaith. Diolch i'r ddau ohonoch.